

Llawenhau yn ein Myfyrwyr Diwinyddol a Dymuno'n Dda Iddynt



Mae Jon Brewer newydd ddechrau ar ei drydedd flwyddyn yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd.



Gobaith Mervyn Rigg, sydd yn yr ail flwyddyn yng Nghaerdydd, yw bod yn Gaplan Ysbyty.



Hyfforddir Sian Elin Thomas ar y cyd gan y Coleg Gwyn a Choleg Caerdydd ac mae newydd ddechrau ar leoliad yn y Graig, Castell Newydd Emlyn.



Neil Warburton sy'n parhau gyda'i astudiaethau yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd.



Dechreuodd Richard John Miles astudio Hanes ac Egwyddorion y Bedyddwyr ym mis Medi eleni.



Dechreuodd Rebekah Smethurst astudio yn Athrofa Padarn Sant eleni ar gwrs MTh mewn Arbenigedd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.



Tomos Roberts Young sy'n dilyn cwrs Meistr ym Mhrifysgol St Andrews yn yr Alban.

CALFARIA SGIWEN YN CROESAWU GWEINIDOG NEWYDD



Y Parchg Huw Anderson a'i wraig, Alex

Efallai mai oherwydd i'm nain a'm taid ar ochr fy mam dreulio degawdau fel cenhadon yn Bolivia y mae y gwasanaeth cenhadol hirdymor wastad wedi bod yn uchel ar fy agenda personol. Yn gadarnhaol, mae wedi fy ysgogi i fentro llawer er lles y Deyrnas. Yn negyddol, mae wedi fy ngwneud yn ddiamynedd gyda llawer o orchwylion bywyd arferol yr eglwys. Treuliais y rhan fwyaf o'm bywyd Cristnogol o fewn i'r teulu Bedyddiedig a'm rôl swyddogol gyntaf oedd gwasanaethu fel Ysgrifennydd Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn yr hen Gymanfa Bedyddwyr Saesneg Gorllewin Cymru nôl yn 1992/3.

Er gwaethaf gyrfa broffidiol yn Ninas Llundain, teimlais fod angen i mi fyw a gweithio mewn gwlad lle nad oedd gan Gristnogaeth Efengylaidd fawr o wreiddiau. Deuthum yn gyfarwydd iawn â'r Eidal yn ystod prosiect i fyfyrwyr yno yn 1990 ac ymdeimlais â galwad i wasanaethu yno. Nid tan 1997 y penderfynais symud i Milan, yn wreiddiol i ddod o hyd i waith yn y sector ariannol a chefnogi eglwysi lleol yn fy amser hamdden. Fodd bynnag, er gwaethaf fy mrwdfrydedd naif a ffôl braidd, fe wnaeth yr Arglwydd yn glir i mi ei fod yn diystyru fy nghynlluniau. Ei alwad Ef oedd i'r weinidogaeth ordeiniedig a chyfnod hir o hyfforddiant a gwaith paratoi nôl yn y Deyrnas Unedig.

Yn y pen draw, ymadawodd fy ngwraig Alex a minnau am Sicily yn 2007 gyda BMS World Mission. Fe fuom yn cynorthwyo mewn amryw o eglwysi'r Bedyddwyr yn ne'r Eidal, gan gadw tystiolaeth yr Efengyl yn fyw o dan amgylchiadau anodd iawn.

Dychwelsom i Abertawe yn 2010 am resymau teuluol a dechreuodd Alex hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yn swyddogol. Mae hi bellach yn gaplan yn Ysbyty Treforys. Ar ôl gweithio ym maes datblygu Gweinidogaeth a Chenhadaeth mewn cylchoedd Anglicanaidd yn ne-orllewin Cymru, rwyf bellach yn weinidog ar eglwys Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghalfaria Sgiwen. Mae'r heriau'n aruthrol yma hefyd, yn enwedig yn y cyfnod Covid hwn. Fodd bynnag, mae rhywbeth cadarnhaol iawn am y gynulleidfa yng Nghalfaria ac amser a ddenys beth all yr Arglwydd ei gyflawni yma. Y cyfan a wyddom yw y bu'n ffyddlon yn y gorffennol ac y bydd eto yn y dyfodol.

Parchg Huw Anderson

**‘Canwch i’r
ARGLWYDD gân
newydd, canwch i’r
ARGLWYDD yr holl
ddaeear’.**

(Salm 96:1)

Gweddïau Diolchgarwch gan Lywydd yr Undeb

*“Am gael cynhaeaf yn ei bryd
dyrchafwn foliant byw;”*

Yng Ngŵyl y Cynhaeaf eleni diolchwn am:

- fendithion y tymhorau ac am gyfoeth a phrydferthwch y byd o'n cwmpas;
- y tir, ffrwythau a'r llysiau, ac am yr amaethwyr fu'n gweithio'n ddiwyd i gynhyrchu'r cynyau;
- ffermwyr yng ngwledydd tlawd y byd am eu hymdrechion o dan amgylchiadau anodd a chyfleusterau cyntefig, sy'n llwyddo i hau a chynaeafu pob math o fwydydd i'n digoni yn y wlad yma;
- fudiadau gwirfoddol sy'n helpu'r miliynau sy'n dioddef newyn a sychder, ac am yr unigolion yn ein gwlad sy'n gwirfoddoli yn rheolaidd i helpu pobl anghenus y byd gan gynnwys y miliynau o ffoaduriaid;
- dimau meddygol a gofal am eu hymdrechion i atal lledaeniad Cofid-19 a chlefydau erchyll tebyg;
- berthnasau a ffrindiau a phobl sy'n gwirfoddoli ac yn rhoi o'u hamser i gynnig cysur i'r henoed, y methodig, y difreintiedig a'r unig;
- bobl sy'n sicrhau lloches i'r digartref a'r rhai sydd yn profi amser caled, er mwyn rhoi cyfle iddynt gael gwell ansawdd bywyd yn y dyfodol;
- wyddonwyr a phawb sy'n ymdrechu i wella'r amgylchedd er mwyn sicrhau gwell cyfleusterau a dyfodol i holl drigolion y byd.

“Duw'n darpar o hyd at raid dynol-ryw yw'n cysur i gyd a'n cymorth i fyw.”

**David Peregrine,
Llywydd Adran Gymraeg UBC**

DAU IFANC YN CYCHWYN AR INTERNIAETH

Dyma hanes Mia Anderson o Gapel Gomer ...



Fy enw i yw Mia Anderson, dwi'n 18 ac yn byw yn Abertawe.

Dwi di bod yn Gristion ers blwyddyn a hanner. Tyfais lan yn mynd i'r capel ond doeddwn i byth wir wedi credu mewn Duw. Ond dwy flynedd

yn ôl wnes i ddechrau cwestiynu os oedd Duw. Dechreuais weddio er nad oeddwn i'n credu fy mod yn siarad ag unrhyw un. Yna un diwrnod fe wnes i sylwi bo fi'n siarad gyda Duw a'i fod yn fy nghlywed. Cwpl o ddyddiau wedyn cefais wahoddiad i ginio Capel Gomer. Fe wnes i fynd, a gan ei bod hi'n adeg y Pasg roedden nhw'n siarad am sut wnaeth Iesu farw droson ni. Am yr wythnos a hanner nesaf dyna i gyd roeddwn i'n gallu meddwl amdano. Felly un noson fe wnes i edrych i mewn i beth wnaeth Iesu droson ni a pham, ac roeddwn i'n gwybod yn fy nghalon ei fod yn wirionedd a des i'n Gristion yr eiliad yna.

Yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf mae Duw wedi dod â fi yn agosach ato fe wrth i mi dyfu yn y ffydd wrth iddo fod ar waith yn fy mywyd. Dwi wedi bod yn mynd i'r

capel a'r astudiaeth Feiblaidd yn wythnosol. Dwi hefyd wedi bod yn rhannu gair Duw wrth helpu yn yr Undeb Gristnogol yn yr ysgol wrth gynnal trafodaethau a chyrsgiau plant.

Eleni rwy'n gwneud interniaeth gyda fy eglwys Capel Gomer ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae'r interniaeth yn cynnwys astudio'r Beibl a llyfrau eraill, helpu gydag astudiaethau a dysgu sut i rannu gair Duw.

Yn ystod yr interniaeth byddaf yn cael fy mentora gan nifer o aelodau Capel Gomer a hefyd pobl o'r gymuned Gristnogol leol.

Dwi'n gyffrous iawn i gael y cyfle i gryfhau fy mherthynas gyda Duw a dod i ddeall ei air yn well yn ystod y flwyddyn.

Mia Anderson

... a Gruff Jenkins o'r Tabernacl, Llwynhendy

Rydw i'n dod o deulu s'yn llawn o Fathemategwyr gan gynnwys fy hunan gan i mi fynd i'r Brifysgol i astudio Mathemateg. Rydw i'n mwynhau Mathemateg ond doeddwn i ddim yn siŵr beth oedd y cam nesaf ar ôl graddio. Roedd cyflwyno fy hun i weinidogaeth y Gair yng nghefn fy meddwl yng nghanol fy mhedwaredd flwyddyn.

Felly gwnes i benderfynu gwneud blwyddyn gydag Undeb Bedyddwyr Cymru, fel rhan o Dîm i Gymru, a gwnes i gael cyfleoedd i bregethu yn ystod y flwyddyn a gweithio gyda gwahanol Eglwysi. Ar ddiwedd y flwyddyn gydag UBC gwnes i benderfynu gwneud blwyddyn o waith, a dal ati i bregethu. Felly gwnes i weithio fel Cynorthwydd Dysgu i'r Adran Fathemateg yn Ysgol Gyfun Bryntawe a chefais gyfle i bregethu mewn llawer o Eglwysi yng Nghymru trwy'r flwyddyn.

A nawr ar ôl ystyried a gweddio, roedd cyflwyno fy hun i weinidogaeth y Gair ar flaen fy meddwl.



Rydw i eisiau blwyddyn sy'n cynnwys ymwneud yn ymarferol gydag Eglwys leol yng Nghymru ac a fydd yn gam i'r weinidogaeth, ac mae'r cynllun interniaeth yma yn cynnig hynny.

Bydd y cynllun yn rhoi amser i mi astudio, trafod a darllen llyfrau megis llyfrau diwinyddol, hanes yr Eglwys, esboniadau ar lyfrau'r Beibl a llyfrau yn edrych ar bethau ymarferol y weinidogaeth. Bydd y cynllun yn

sylfaen da ar gyfer mynd ymlaen i astudio Diwinyddiaeth ac yna i'r weinidogaeth. Hefyd bydd y cynllun interniaeth yn cynnwys elfennau ymarferol ar gyfer y weinidogaeth megis sut i rannu/ddysgu Gair Duw mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Gruff Jenkins

Interniaeth Undeb Bedyddwyr Cymru

**Os oes gennych
ddiddordeb mewn treulio
cyfnod fel mae Mia a
Gruff yn gwneud,
cysylltwch â'r
Parchg Simeon Baker:
simeon@ubc.cymru**

GWEINIDOG CENHADOL I FÔN



Deb Stammers gyda'i theulu

Deb Stammers ydwi, ac rydw i'n edrych ymlaen at gychwyn efo Gymanfa Môn fel Gweinidog Cenhadol ym Mis Tachwedd. Byddaf yn cyflawni rôl hon yn rhan amser, ochr yn ochr gyda fy ngwaith

fel Gweinidog yn New Park Street English Baptist Chapel, Caergybi. Rydw'i newydd orffen y cwrs MTh yng Ngholeg y Bedyddwyr De Cymru yng Nghaerdydd, a dros yr haf wedi symud i Ynys Môn o Fethesda yng Ngwynedd, gyda fy nheulu.

Rydw'i wedi tyfu fyny yn Lloegr, ond wnes i gyfarfod Jon, fy ngŵr, tra oedden ni'n wneud blwyddyn gyda Wycliffe Bible Translators. Aeth y ddau ohonom i Senegal yn Affrica efo Wycliffe, ond roedd Jon yn hogyn o Fangor, felly dyna sut wnes i landio yng Ngogledd Cymru ar ôl i ni ddod adref a phriodi. Rydw'i wedi dysgu Cymraeg, ac mae gen i gefndir yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol gyda Chynghorau Gwynedd a Môn.

Byddwn yn falch iawn o'ch gweddiâu wrth imi ddechrau ar y fenter newydd hon. Gweddiwch am:

Ein plant, Bethan (11) ac Ioan (8), wrth iddyn nhw setlo mewn ysgolion newydd.

Doethineb a gweledigaeth er mwyn dirnad arweiniad Duw wrth i mi weithio ochr yn ochr gyda'r eglwysi sy'n rhan o Gymanfa Môn.

Deb Stammers

CROESO NÔL I EGLWYS CEFNCRIBWR

Yng nghanol heriau'r cyfnod hwn, mae'n bleser mawr estyn croeso cynnes iawn i eglwys Nebo, Cefncribwr.

Mae'r eglwys wedi penderfynu adnewyddu'i chysylltiadau drwy ailymaelodi gyda Chymanfa Gorllewin Morgannwg a'r Undeb.

Pentref bach ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont-ar-Ogwr yw Cefncribwr, nid nepell o dref Pen-y-bont. Mae achos bedyddiedig yno yn dyddio nôl i 1844 ac yn parhau i fod yn dyst cadarn i'r Arglwydd Iesu yng nghanol y gymuned.

Heddiw mae'r eglwys, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y pentref, yn gynulleidfa agos a gweithgar sy'n llawn ffydd a brwdfrydedd. Cynhelir yno oedfa bregethu bob prynhawn Sul ynghyd ag astudiaeth Feiblaidd a chwrdd gweddi llwyddiannus yn ystod yr wythnos.

Dywedodd un o ddiaconiaid yr eglwys, Mr David Woods, fod yr eglwys yn ddiolchgar am gefnogaeth y Gymanfa a'r Undeb yn ystod y



cyfnod hwn ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o deulu'r Bedyddwyr unwaith eto.

Rydym yn estyn croeso cynnes i Nebo ac yn gweddiö am fendith Duw ar waith yr eglwys yng nghymuned Cefncribwr.

APÊL TIMOTHY RICHARD: Darparu Cyfleoedd Addysg i Blant Ffoaduriaid yn Libanus

Ein bwriad oedd cau apêl yr

Undeb yn y Cyfarfodydd

Blynyddol eleni ond o

ganlyniad i'r Covid-19

penderfynwyd ymestyn y

dyddiad cau tan Mehefin

2021. Mawr obeithir y bydd

modd inni gyrraedd y targed

o £40,000 a thrwy hynny

ddangos haelioni arbennig, o

gofio'r anawsterau a'r heriau

sydd yn wynebu Libanus ar

adeg mor anodd yn ei hanes.